



**Gwasanaeth Democratiaeth**  
**Democracy Service**  
Swyddfa'r Cyngor  
Stryd y Jêl  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**  
**PWLLHELI HARBOUR CONSULTATIVE COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**6.00PM, DYDD MAWRTH, 22 HYDREF, 2013**

**6.00PM, TUESDAY, 22 OCTOBER, 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GYFARFOD, FRONDEG, PWLLHELI**  
**MEETING ROOM, FRONDEG, PWLLHELI**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**(01286 679020)**

**[BethanAdams@gwynedd.gov.uk](mailto:BethanAdams@gwynedd.gov.uk)**

**Dosbarthwyd/Distributed 15-10-13**

**AELODAETH/MEMBERSHIP:**

<b>CYNGOR GWYNEDD</b>	
Cyng/Cllr Robert J. Wright	(Aelod Lleol/Local Member)
Cyng/Cllr Michael Sol Owen	(Aelod Lleol/Local Member)
Cyng/Cllr Peter Read	(Aelod Lleol Abererch Local Member)
<b>Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members</b>	
Cyng../Cllr Mici Plwm	(Cyngor Tref Pwllheli Town Council)
<i>I'w ethol/To be elected</i>	(Sefydliad y Bad Achub/Lifeboat Association)
Mr Rod Green	(Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch/Pwllheli and District Boat Owners Association)
Mr David Dewsbury	(Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli/Hafan Berth Holders Association)
Mr Stephen Tudor	(Clwb Hwyllo Pwllheli Yacht Club)
Mr Wil Partington	(Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli/Maritime Traders Association)
Mr Andrew Picken	Siambwr Fasnach Pwllheli Chamber of Trade
<b>Sylwedyddion / Observers</b>	
Mr David Richardson	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi Aberdyfi Harbour Consultative Committee
Cyng/Cllr Gethin G. Williams	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw Barmouth Harbour Consultative Committee
Dr John Jones-Morris	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog Porthmadog Harbour Consultative Committee

## **RHAGLEN**

### **1. CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2013/14

### **2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am y flwyddyn 2013/14

### **3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### **4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

### **5. MATERION BRYD**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

### **6. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2013, fel rhai cywir (copi yma -papur **melyn**)

### **7. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL**

Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, (copi yma – papur **glas**)

### **8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Mawrth, 2014.

---

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**  
**19-03-13**

---

**Presennol:** Y Cyngorydd Michael Sol Owen (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Robert J. Wright (Cyngor Gwynedd), Cyngorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli), W.A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Andrew Picken, (Siambwr Fasnach Pwllheli), David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli), Stephen Tudor (Clwb Hwyllo Pwllheli)

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams (Rheolwr Harbwr Pwllheli), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Ken Fitzpatrick (Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyngorydd Peter Read a'r Cyngorydd Gethin G. Williams (Sylwedydd)

Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

- a) Tynnodd sylw at y ffaith bod rhai o'r sefydliadau a gynrychiolir ar y pwyllgor wedi bod yn anfon dau gynrychiolydd i'r pwyllgor hwn yn y gorffennol, ond dylid nodi mai un gynrychiolydd yn unig a ganiateir
- b) Y dylid annog Sefydliad y Bâd Achub i enwebu aelod i'w cynrychioli ar y pwyllgor.

Ymdeoliad y Swyddog Morwrol Cynorthwyol

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai hwn fyddai cyfarfod harbwr olaf y Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau gan ei fod yn ymddeol diwedd mis Awst 2013. Diolchwyd am ei wasanaeth cydwybodol i'r Cyngor tros y blynyddoedd a dymunwyd ymddeoliad hapus iddo.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2012 fel rhai cywir.

**3. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL**

Cyflwynodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei adroddiad gyda sylw penodol yn cael ei roi i'r materion canlynol:

- Mordwyo, Angorfeydd a Carthu
- Cyllidebau'r Harbyrau
- Digwyddiadau
- Academi Hwyllo
- Ystadegau Morwrol
- Staff Harbwr

**Mordwyo, Angorfeydd a Carthu**

i) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oes llawer o newid wedi digwydd ynglyn â'r cymhorthion mordwyo. Mae'r rhai yng ngheg yr harbwr wedi eu gwella. Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda Rheolwr yr Hafan ac eraill i drafod yr

anhawsterau pryd y canfuwyd bod angen ymgymryd a peth gwaith yno. Bwriedir hefyd ailedrych ar y cymhorthion eraill sydd ymhellach allan yn y sianel

ii) O safbwynt y bwiau parth traethau, fe'i gosodir gan contractwr yn ardal Pwllheli ac Abersoch erbyn dechrau mis Mai (ym Mhwllheli). Nododd y crewyd parth gwaharddiad cychod yn ardal Traeth Glandon

iii) Parthed cynnal a chadw'r angorfeydd, fe ailstrwythurwyd yr angorfeydd yn yr harbwr. Penodwyd contractwr i archwilio'r angorfeydd sy'n weddill am gost oddeutu £2,000.

Wrth drafod y materion hyn gyda Tŷ'r Drindod sy'n ymwneud â chymhorthion mordwyo, maent yn hollol fodlon gyda'r sefyllfa ym Mhwllheli.

Nododd nad yw Prifysgol Bangor wedi cwblhau'r adroddiad hyd yn hyn ar y bwi monitro llaid.

iv) Mewn perthynas â'r gwaith carthu, nododd y swyddog y dechreuwyd ar y gwaith o wagio'r lagŵn ac fe gadwyd y llaid ar hyn o bryd ar y tir. 'Roedd y gost o wneud y cyfan o'r contract yn sylweddol. Ar hyn o bryd, cynhelir trafodaethau i edrych beth fyddai'n ddelfrydol ei wneud gyda'r defnydd. Byddai'n bosibl cludo'r llaid oddiyno, yn unol â'r contract, neu ei lefelu ar hyd y tir.

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned, o ran gwelliannau 2013, rhoddwyd ymrwymiad i drefnu gwaith carthu yn cynnwys gwaith cynnal a chadw yn y sianel a basn y marina yn ogystal â gwaith carthu cyfalaf mewn perthynas â gwaith yr Academi Hwyllo i'r gogledd o'r Hafan. Yn gynharach eleni aethpwyd allan i dendr er mwyn adnabod cwmni ar gyfer ymgymryd â'r gwaith, ac yn dilyn y broses honno fe osodwyd y contract i Gwmni Jones Brothers. Nododd bod yna fanteision o gael contractwr yn rhan o'r trafodaethau a'r gwaith paratoi. 'Roedd y broses tendro ychydig yn wahanol oherwydd y gofynnwyd i'r cwmnïau gyflwyno atebion i'r problem o waredu'r carthion. Derbyniwyd pump tendr ond nid oedd yr un cwmni yn gallu cynnig opsiwn a olygai waredu'r gwaddod oddi ar y safle. Parator cynllun ar hyn o bryd i greu "bund" ychwanegol rhwng safle'r ynys a'r lagŵn presennol a fyddai'n creu capasiti nid yn unig ar gyfer y gwaith eleni ond hefyd ar gyfer yr hir dymor. Edrychir hefyd ar wneud defnydd amrywiol o'r carthion, gan gynnwys y deunydd a ddaeth allan o'r lagŵn. Cyfeiriodd at y syniad o edrych ar dirlunio o gwmpas, ac yn cynnwys safle'r ynys, ac fe ymgwymerir â'r gwaith cychwynnol ar hyn o bryd. Syniad arall yw defnyddio ychydig o'r gwaddod ar gyfer tirlunio safle'r Academi Hwyllo.

O ran yr amserlen, nododd y swyddog y disgwyliwyd yn wreiddiol y gellid rhannu'r gwaith yn ddwy ran sef gwaith cynnal a chadw ar y sianel cyn yr haf a bod gwaith carthu'r Hafan a'r Academi Hwyllo yn digwydd ar ôl yr haf. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau, cytunwyd i gael un contract mawr i ddechrau ar y safle ym mis Medi 2013 er sicrhau'r gwerth gorau am arian. Cydnabu bod yna faterion yn y sianel sydd angen sylw ac fe ymgwymerir â'r gwaith yno cyn tymor yr haf. O ran y cynlluniau, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru bod angen asesiad ardrawiad amgylcheddol llawn, ac erbyn hyn fe gwblhawyd rhan helaeth o'r adroddiad.

### **Cyllidebau'r Harbyrau**

Mewn perthynas â'r Hafan, nododd y swyddog nad oes bwriad i godi'r ffioedd yno eleni ac 'roedd hynny'n galonogol ac yn dangos ymrwymiad y Cyngor i'r cwsmeriaid.

Parthed yr harbwr allanol, fe gynyddwyd y ffioedd 1.5% oherwydd y chwyddiant yn yr harbwr. Nododd y llynedd, 'roedd y cychwyr yn archebu'r angorfeydd cyn dyddiad penodol ac y rhoddwyd disgownt iddynt. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl i'r Cyngor roddi'r disgownt eleni. Cyfeiriodd at y system talu drwy debyd uniongyrchol a sefydlwyd

a oedd yn un gymhleth iawn ac yn rhoddi pwysau ychwanegol ar yr adnoddau prin sydd gan yr Uned Forwrol i weinyddu'r harbwr. 'Roedd opsiwn hefyd i wneud un taliad ar ddechrau'r flwyddyn ac 'roedd lleihad yn y gost i'r unigolyn weithredu felly.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y cynnydd yn ffioedd yr angorfeydd a bod lleihad yn nifer y ceisiadau amdanynt, hysbysodd y swyddog bod sefyllfa'r economi'n fregus ac oherwydd hynny 'roedd lleihad cyffredinol yn y nifer o geisiadau am angorfeydd drwy Wynedd.

Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned os oes dirywiad sylweddol yn y niferoedd, 'roedd hynny'n sicr o effeithio ar y Cyngor a Phwllheli. Dechreuwyd ar waith i ddadansoddi'r effeithiau a bwriedir cyflwyno cynigion yn ystod y flwyddyn i geisio datrys y sefyllfa. Nododd nad yw marinas eraill Gogledd Cymru'n llawn ac efallai yr effeithir mwy ar y marinas hynny sydd ar y cyrion.

Rhodddwyd manylion am nifer y cychod a adawodd angorfeydd yr harbwr rhwng 2007 a 2013 ond yn anffodus, ychydig iawn o gychod newydd sy'n dod i fewn.

Cyfeiriodd aelod at yr angen i farchnata'r harbwr. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y gwnaed buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar i'r cyfeiriad hwn a chyfeiriodd at y ffaith bod "Sailing Today" a hefyd "Practical Boat Owner" yn bwriadu ymweld â Phwllheli yr wythnos hon er gwneud erthygl am yr harbwr.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl cael diffiniad o wahanol ymwelwyr i'r harbwr. Addawodd y swyddog ystyried ymarferoldeb hyn.

### **Digwyddiadau**

Hysbysodd y swyddog bod Gŵyl Wakestock yn parhau i ddatblygu a parheir i drafod â'r trefnwyr y defnydd o fasn y gogledd ar gyfer cynnal eu cystadlaethau.

Yn yr un modd, mae'r Gŵyl Fwyd yn parhau i ddatblygu.

Nododd bod Clwb Hwyllo Pwllheli yn bwriadu cynnal gwahanol gystadlaethau eto eleni. Cyfeiriodd cynrychiolydd y Clwb Hwyllo ar y pwyllgor, at gais a gyflwynwyd i gynnal cystadleuaeth digwyddiad byd yn 2015 gyda'r dewis rhwng Pwllheli a De Affrig. Rhoddodd fanylion am gystadlaethau cyffelyb eraill yn ystod 2016 a 2017.

Mewn perthynas â'r Gorchymyn Rheoli Cŵn, hysbysodd y swyddog bod y gorchymyn a ddeuai i rym ar 1 Ebrill 2013 yn debygol o effeithio'n bositif ar ardal Traeth Glandon. Golygai hyn na chaiff cŵn fynd ar draethau lle mae'r gorchymyn hwn yn bodoli.

Parthed gwaredu a diogelwch tân gwyllt, nododd y swyddog y talwyd bron i £3,000 am waredu fflachiau a adawyd yn yr harbyrau tros y misoedd diwethaf. Rhoddir ystyriaeth i sefydlu canolfan ym Mhorthmadog, a fyddai'n drwyddedig, i storio'r rhain.

### **Academi Hwyllo**

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ddiweddariad o gynllun yr academi.

Nododd y swyddog, o ran y gwaith carthu, gosodwyd y contract i Gwmni Jones Brothers. O safbwynt yr adeilad, fe wahoddwyd tendrau ac fe'u haseswyd, a chwblheir y broses caffael ar hyn o bryd lle y cyflwynir adborth yn ôl i'r cwmnïau a gyflwynodd dendrau. Rhoddir gwybodaeth i'r aelodau maes o law am y cwmni llwyddiannus.

O ran y datblygiadau eraill, ymgwymerwyd â gwaith sylweddol yn ystod yr wythnosau diwethaf i sefydlu Cwmni Plas Heli er mwyn rheoli'r adnodd sydd i'w ddatblygu a dewiswyd Stephen Tudor yn Gadeirydd y Cwmni.

Rhoddodd Cadeirydd y Cwmni fanylion am y gwaith sydd ar y gweill i sefydlu is-bwyllgorau i ystyried gwahanol weithgareddau a.y. Dechreuwyd hefyd ar waith cymunedol.

### **Staff Harbwr**

Hysbysodd y swyddog y cymerwyd camau i ailstrwythuro staff yr harbwr a'r Hafan gyda Rheolwr yr Hafan erbyn hyn yn gyfrifol am reolaeth yr Harbwr yn ogystal. Mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol ac yn rhoddi mwy o adnoddau yn yr Hafan a'r harbwr yn ei gyfanrwydd.

Rhoddir ystyriaeth i allanoli'r llithrfa ochr yr harbwr allanol a bwriedir trafod y mater gyda Rheolwr yr Hafan yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ail-leolwyd yr harbwrfeistr i ochr yr Hafan lle mae'r mwyafrif o'r gweithgareddau'n digwydd.

Gweithredir y rhaglen waith cynnal a chadw yn effeithiol iawn gan Reolwr yr Hafan.

Mewn perthynas ag elfen weinyddol yr harbwr, ceisir ariannu swydd rhan amser i gefnogi'r Swyddog Gweinyddol presennol.

Bwriedir hefyd hysbysebu i gael goruchwyliaeth nos.

### **PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

#### **4. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 22 Hydref 2013.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.30pm

***Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr  
Pwllheli  
Harbour Consultative Committee***

***22 Hydref / October 2013***

***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.***

***Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.***

***1. Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Harbour Consultative Committees***

- Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli 2014 / Pwllheli Harbour Consultative Committee Terms of Reference 2014
- Cynrychiolaeth Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli 2014/ Pwllheli Harbour Consultative Committee Representatives 2014
- Materion Agenda Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Agenda Items for Harbour Consultative Committees

***2. Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code***

- Cod Diogelwch Harbyrau 2012 / 2012 Port Marine Safety Code (copi wedi ei bostio- copy posted)
- Cod Diogelwch Harbyrau Gwynedd / Gwynedd Harbours Port Marine Safety Code (copi wedi ei bostio- copy posted)

***3. Datblygiadau Academi Hwyllo-Diweddariad / Sailing Academy Developments***

- Diweddariad ar y Rhaglen Adeiladu / Works Programme Update
- Diweddariad ar y Rhaglen Carthu / Dredging Works Programme Update

***4. Mordwyo ac Angorfeydd  
Navigation and Moorings***

- Rheoliadau a Cofrestru Badau Dŵr Personol a Cwch Pŵer / Personal Watercraft and Powerboat Regulations and Registration
- Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
- Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
- Cynnal a Chadw Angorfeydd / Mooring Maintenance
- Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections



**5. *Ystadegau Morwrol***  
***Maritime Unit Statistics***

- Ystadegau Angorfeydd Harbwr / Harbour Mooring Statistics (WW)
- Ystadegau Hafan / Hafan Mooring Statistics (WW)
- Ystadegau Harbyrau Eraill / Other Harbour Statistics
- Ystadegau Cyffredinol / General Statistics

**6. *Cyllidebau Harbyrau***  
***Harbour Budgets***

- Cyllidebau Terfynnol 2012/13 Final Account
- Targedau Cyllideb Cyfredol 2013/14 Current Budget Targets
- Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Awst / Current Expenditure and Income to end of August
- Ymgynghoriad Ffioedd Angorfeydd 2014 Fees and Charges Consultation

**7. *Goddefiadau a Gwelliannau***  
***Concessions and Improvements***

- Gwerthiant Diesel Coch / Red Diesel Sales
- Llyfr Cyfeirydd 'Cruising Anglesey' Guide
- Marchnata - Hysbyseb 'PBO' Advertisement-Marketing

**8. *Diogelwch Offer Morol / Marine Equipment Security***

- Cynllun Gwarchod Morol / Marine Watch Scheme

**9. *Staff Harbwr / Harbour Staff***

- Trefniadau Gaeaf 2013/14 - Winter Arrangements 2013/14 (Rheolwr Harbwr / Harbour Manager)
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gaeaf / Winter Maintenance Works Programme (Rheolwr Harbwr / Harbour Manager)

## ADRODDIAD I'R CABINET

17 Medi 2013

**Aelod Cabinet:** Cyng John Wynn Jones

**Pwnc:** Côt Diogelwch Morwrol

**Swyddog cyswllt:** Llyr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned

---

### Y penderfyniad a geisir

Fod y Cabinet ddiweddarau trefniadau gweithredu ac atebolrwydd dyletswyddau rheoli harbyrau'r Sir yn unol â'r Cod Diogelwch Morwrol, gan gynnwys ymgymryd â swyddogaethau 'Deilydd Dyletswydd'

Fod cyfansoddiad safonol yn cael ei fabwysiadu gan y Pwyllgorau Harbwr Ymgynghorol presennol, fel rhan o'r trefniadau newydd

---

### Barn yr aelod lleol

Ddim yn fater lleol

---

### Cyflwyniad

Yn 2012, bu Adran Trafnidiaeth llywodraeth ganolog gyhoeddi dogfen 'Cod Diogelwch Morwrol Porthladdoedd' gan ddiweddarau canllawiau a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2000.

Mae'r Côt yn berthnasol i bob awdurdodau harbwr yn y Deyrnas Gyfunol, ac yn sefydlu'r egwyddor i osod safon genedlaethol ar gyfer diogelwch morwrol porthladdoedd er budd diogelwch rhai sydd yn gweithio neu ddefnyddio porthladdoedd, cychod, teithwyr a'r amgylchedd. Mae copi o'r Cod Diogelwch Morwrol wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod Harbwr statudol yn unol â diffiniad y Côt, ar gyfer Harbwr Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli. Yn ychwanegol, mae Harbwr Porthmadog wedi ei ddynodi fel Awdurdod Harbwr Cymwys yn unol â Deddfwriaeth Peilot 1987 er, nid yw hyn yn effeithio ar gydymffurfiaeth â'r Côt.

Mae'n fwriad i'r Côt Diogelwch fod yn berthnasol i bob Awdurdod Harbwr sydd â dyletswyddau a phwerau mewn perthynas â diogelwch morol. Nid yw cydymffurfio â'r Côt yn ddewisol, ac mae'n ddisgwyliedig bod Awdurdodau Harbwr yn gweithio i gyflawni'r safon gytunedig drwy weithredu.

Mae'r Côt hefyd yn cyfeirio at ddyletswyddau penodol, ac mae angen cadarnhau trefniadau'r Cyngor yn sgil newidiadau i'w gyfansoddiad llynedd.

### **Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn unol â gofynion y Côt Diogelwch Morwrol Porthladdoedd.

### **Ystyriaethau perthnasol**

Rhoddir ystyriaeth gryno i brif agweddau o'r Côt isod :

#### a) Atebolrwydd am Ddiogelwch Morwrol

Mae'r canllawiau ar atebolrwydd yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol

- Fod Deilydd Cyfrifoldeb (Duty Holder), ar ran yr awdurdod harbwr, yn atebol am reoli gweithgareddau o fewn yr harbwr
- Dylai awdurdodau gyhoeddi ymrwymiad i gydymffurfio gyda'r Côt
- Mae'r Côt yn safon genedlaethol y gellir mesur polisiâu, gweithdrefnau a pherfformiad awdurdodau harbwr
- Dylid sicrhau fod cyfrifoldebau rheolaeth a gweithredol wedi eu diffinio'n glir
- Dylid apwyntio 'Person Dynodedig' er mwyn sicrhau sicrwydd ansawdd annibynnol o'r systemau diogelwch morwrol.

Mae'r Côt yn mynnu bod pob awdurdod harbwr yn dal ei hun yn atebol am gyflawni ei ddyletswyddau a'i bwerau yn unol â'r safonau â bennwyd. Mae'n nodi hefyd y dylai aelodau bwrdd pob awdurdod dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau fod yr awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i bwerau i'r cyfryw safonau. Mae dyletswyddau a phwerau mewn perthynas â diogelwch gweithgareddau morwrol mewn unrhyw harbwr wedi eu hymddiried i awdurdod statudol. Mae aelodau'r bwrdd, gyda'i

gilydd ac yn unigol, yn gyfrifol am weithrediad priodol dyletswyddau statudol eu hawdurdod.

Mae rôl y Deilydd Cyfrifoldeb yn cynnwys :

- gorolwg strategol a chyfeiriad i weithgareddau'r harbwr, gan gynnwys diogelwch morwrol
- cyfrifoldeb am ddatblygu polisiau, cynlluniau, systemau a gweithdrefnau
- sicrhau fod asesiadau ac adolygiadau yn cael eu cynnal
- sicrhau for yr awdurdod harbwr yn gorfodi rheoliadau, ac yn gosod trefniadau ariannol priodol

Mae gan awdurdodau harbwr hawl i benodi Harbwrfeistr ac i awdurdodi peilotiaid ac mae'n briodol iddynt ymddiried gweithrediad yr harbwr i'r cyfryw bobl broffesiynol; ond ni allant drosglwyddo eu cyfrifoldeb. Ni all aelodau Bwrdd ddiosg eu hatebolwydd oherwydd nad oes ganddynt sgiliau penodol. Rhaid iddynt gadw gorolwg strategol a chyfeiriad ar bob agwedd o weithrediad yr harbwr.

Mae'n sylfaenol i gyfundrefn rheoli diogelwch effeithiol fod pob awdurdod harbwr yn priodoli dyletswyddau "Person Dynodedig" i ddarparu sicrhau annibynnol i'r 'Deilydd Cyfrifoldeb', a bod y gyfundrefn rheoli diogelwch yn gweithredu'n effeithiol, ac i archwilio cydymffurfiaid yr awdurdod â'r Côd

Argymhellir fod y Cyngor yn mabwysiadu'r trefniadau isod :

	<b>Swyddogaethau'r Côt</b>	<b>Trefniadau Arfaethedig</b>
i	"Deilydd Dyletswydd"	Cabinet y Cyngor
ii	"Person Dynodedig"	Awdurdod Harbwr Annibynnol (i'w benodi gan yr Adran)
iii	"Prif Swyddog"	Rheolwr Gwasanaeth Morwrol
iv	"Harbwr Feistr"	Harbwr Feistri sydd wedi eu penodi o fewn Gwasanaeth Morwrol

Rhagwelir y byddai adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn flynyddol.

b) Dogfennau

Yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau yn wreiddiol yn 2000, bu i'r Cyngor gomisiynu gwaith i gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi Cynllun Côt Diogelwch Morwrol Porthladdoedd Gwynedd. Yn ychwanegol mae dogfennau wedi eu paratoi ar gyfer Harbwr Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli. Mae Côt Diogelwch Doc Fictoria wedi ei gynnwys oddi mewn i'r 'Côt Diogelwch Porthladd Caernarfon'.

Mae'r Cyngor, drwy ddatganiad ysgrifenedig ym mhob harbwr, yn cadarnhau bod y Côt Diogelwch wedi ei baratoi, a bod yna wahoddiad i unigolion â diddordeb yng ngwaith yr Harbwr ei archwilio.

### c) Pwyllgorau Harbwr

Mae'r Côt yn nodi fod angen i awdurdodau harbwr sicrhau trefniadau ymgynghori priodol gyda pharfïon sydd yn rhan neu yn debygol o gael eu heffeithio gan systemau neu weithdrefnau sydd i'w mabwysiadu.

Ar hyn o bryd, mae Pwyllgor Ymgynghorol unigol i harbyrau Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli. Mae cyfansoddiad Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog yn statudol (wedi ei ymgorffori yng Ngorchymyn Harbwr Porthmadog 1998) ond nid yw'n ymddangos fod cyfansoddiad ffurfiol i'r pwyllgorau eraill. O ganlyniad, ystyrir fod cyfle i ddiweddarau'r trefniadau presennol, drwy fabwysiadu cyfansoddiad safonol a thrwy hynny gadarnhau pwrpas, a meysydd gwaith penodol yn unol â'r Côt. Mae cyfansoddiad safonol wedi ei gynnwys fel Atodiad 2, gyda'r bwriad o gysoni trefniadau'r Pwyllgorau Harbwr Ymgynghorol presennol.

Mae'r Pwyllgorau presennol yn cyfarfod dwy waith y flwyddyn. Argymhellir fod y trefniant hyn yn parhau, a bod gwybodaeth am y cyfarfodydd hyn yn cael eu hymgorffori i'r adroddiad blynyddol sydd i'w cyflwyno i'r Cabinet.

### **Camau nesaf ac amserlen**

Argymhellir fod y trefniadau arfaethedig yn cael eu mabwysiadu ac yn weithredol yn syth.

## **Barn y swyddogion statudol**

### **Y Prif Weithredwr:**

“Mae’r cynigion i dacleso trefniadau a sefydlu trefniadau safonol ar gyfer yr harbyrau i gyd i’w groesawu’n fawr iawn ac rwy’n eu cymeradwyo”.

### **Y Swyddog Monitro:**

“Cefais gyfle i drafod gofynion y Cod Diogelwch hefo’r adran ac rwy’n cymeradwyo’r argymhellion yn yr adroddiad. Yn ychwanegol, bu’r cyfansoddiad newydd ar gyfer y Pwyllgorau Ymgynghorol yn destun trafodaeth mewn cyfarfod o gadeiryddion y pwyllgorau. Gan mai pwyllgorau yn adrodd i’r Cabinet ydi rhain mae’n briodol mai’r Cabinet sy’n cytuno ar eu cyfansoddiad ac rwy’n fodlon fod yr hyn a gynigir yn cwrdd â’r gofynion deddfwriaethol.”

### **Y Pennaeth Cyllid:**

“Mae’r Adran Economi a Chymuned wedi cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau cyllidol materol o’r adroddiad gerbron, a gellid gweithredu’n briodol (sicrhau ‘person dynodedig’ annibynol) o fewn eu adnoddau cyfredol.”

## **Atodiadau**

Atodiad 1 : Dogfen Cod Diogelwch Morwrol (2012)

Atodiad 2 : Cyfansoddiad safonol Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau  
Gwynedd



4.3 I osgoi amheuaeth, nid yw rheol 10(5) na 10(6) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (cadeirio mwy nag un pwyllgor; tymor swydd cadeirydd) yn berthnasol i'r Pwyllgor.

## **5. Cworwm a Phleidleisio.**

5.1 Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron y pwyllgor.

5.2 Caniateir i'r cyrff neu fudiadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr yr harbwr anfon eilydd neu ddirprwy i'r cyfarfodydd yn absenoldeb yr aelod sefydlog a bydd gan y deilydd neu ddirprwy bleidlais yn yr un modd â'r aelod sefydlog

5.3 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor fydd chwarter yr aelodaeth bleidleisiol a fydd yn cynnwys o leiaf un cynghorydd sir.

5.4 Caniateir i sylwedydd o bob un o'r tri phwyllgor ymgynghorol harbwr arall fynychu'r cyfarfodydd ond ni fydd ganddynt bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron.

## **6. Amllder Cyfarfodydd.**

6.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn arferol ddwywaith y flwyddyn.

6.2 Bydd gan y Cadeirydd hawl i alw cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor os bydd o'r farn fod angen trafodaeth ar unrhyw fater rhwng cyfarfodydd arferol y Pwyllgor.

## **7. Cylch Gorchwyl.**

7.1 Swyddogaeth y Pwyllgor fydd ystyried a chynghori'r Cabinet ynglŷn â materion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.

7.2 Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a chynghori'r Cabinet ar unrhyw fater perthynol arall a gyfeirir ato gan y Cabinet i'w ystyried o dro i dro.

7.3 Bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ymgynghori hefo'r Pwyllgor ar unrhyw fater sydd, ym marn y Cabinet, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar reolaeth, diogelwch neu ddatblygiad yr harbwr; a bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan y Pwyllgor ond ni fydd dan rwymedigaeth i weithredu yn unol â'r cyngor a roddir.

## **8. Trefn y cyfarfodydd.**

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Cyfansoddiad hwn, rheolir gweithgareddau'r Pwyllgor gan reolau gweithdrefn y Cyngor.





## Rheolau llestr / bad pŵer ym mhorthladdoedd ac ar arfordir Gwynedd

1. Mae'n hanfodol fod pob Cwch Pŵer neu Fad Dŵr Personol sydd yn defnyddio, neu groesi rhan o'r arfordir sydd mewn eiddo, neu reolaeth Cyngor Gwynedd, wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd. Mae angen i lestrau llai na 10hp gofrestru.
  - 1.1 Mae ffi cofrestru yn daladwy, a mae'n rhaid cadarnhau yswiriant dilys trydydd parti, Isafswm £3 miliwn.
  - 1.2 Mae'n orfodol fod yr Hawlen Cofrestru yn cael eu harddangos mewn safle amlwg a gweladwy ar ochr port a starbord y llestr uwch ben y llinell dŵr. Ni chaniateir unrhyw rifau cofrestru eraill. Ni chaniateir lansio pe na fydd yr hawlen yn cael ei arddangos.
  - 1.3 Ni chaiff defnyddwyr Cychod Pŵer neu Badau Dŵr awdurdod i lansio ar unrhyw draeth neu harbwr pe na fyddai'r perchennog wedi cofrestru'r llestr gyda Chyngor Gwynedd, neu os yw ei gofrestriad wedi'i ddiddymu.
  - 1.4 Rhaid talu ffi lansio ar bob safle lansio.
2. **Gofynion Oed:**
  - 2.1 Rhaid bod o leiaf yn 18 oed cyn defnyddio Cwch Pŵer neu Fad Dŵr Personol heb gymhwyster.
  - 2.2 Rhaid bod o leiaf yn 15 i 17 oed gyda Thystysgrif Cymhwysedd G.H.F. ar gyfer Badau Dŵr neu dystysgrif Cwch Pŵer Lefel Dau, ar gyfer mordwyo Bad Dŵr Personol neu Gwch Pŵer heb oruchwyliaeth. Dylai'r tystysgrifau fod ar gael i'w harchwilio ar unrhyw adeg.
  - 2.3 Rhaid bod yn 12 i 14 oed, gyda thystysgrif cymhwysedd G.H.F. ar gyfer Badau Dŵr neu dystysgrif Gwch Pŵer Lefel Dau cyn y caniateir mordwyo o dan arolygaeth uniongyrchol oedolyn. Diffiniad 'Goruchwyliaeth' yw mae'n hanfodol y bod yna oedolyn fel a fydd wedi ei ddifynio yn 2.1 uchod, ar **fwrdd y llestr** drwy'r adeg.
  - 2.4 Dan 12 oed – ddim i lywio Cwch Pŵer neu Fad Dŵr Personol ar unrhyw adeg.
3. **Cyfyngiadau Cyflymdra:**
  - 3.1 Cyflymdra di-drochion o fewn **50 metr** o fad dŵr arall, cwch, doc, nofiwr, sgiwr, pysgotwr, offer pysgota, neu'r lan.
  - 3.2 Rhaid cydymffurfio â chyfyngiadau cyflymdra Cyngor Gwynedd mewn ardaloedd dynodedig. Lle nad oes cyfyngiad cyflymdra penodedig, y cyflymdra uchaf yw **4 MILLTIR FOR**, oddi fewn 100m i'r draethlin (o fan is y llanw) ac o fewn unrhyw harbwr.
  - 3.3 Mae yn anghyfreithlon mordwyo llestr/ bad pŵer mewn ardaloedd gwaharddedig.
  - 3.4 Gwaherddir badau a weithredir gan bŵer rhag mynd ar unrhyw barth diogelwch traeth oni bai y defnyddir ardal lansio penodol ar gyflymder cyfyngedig.
4. Ni chaniateir mordwyo dan ddylanwad diod alcohol neu gyffuriau.
5. **Mae yn drosedd i aflonyddu bywyd gwyllt.** Ni chaniateir aflonyddu dolffiniaid, llamidyddion, siarcod neu unrhyw fath o fywyd gwyllt.
6. Daw perchnogion a cherbydau i'r manau lansio ar eu cyfrifoldebau eu hunain ac mae'n rhaid glynu at gyfarwyddiadau Swyddogion y Cyngor.
7. Anogir defnyddio badau pŵer mewn ffordd gyfrifol bob amser – byddwch yn ystyriol o eraill. Mae'n rhaid cydymffurfio â '**Rheoliadau Rhyngwladol Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr**' bob amser.
8. Dylai llywiwr y llestr sicrhau fod y '**Killcord**' wedi ei gysylltu yn ddiogel i'r peiriant, ac mae'n orfodol dilyn argymhellion y cynhyrchwyr. Ni ddylai unrhyw lestr fod yn mordwyo os na fydd y cortyn wedi ei gysylltu yn gywir. Mae'n orfodol fod yr adlyn '**Killcord**' yn cael ei arddangos ar y llestr drwy'r amser.
9. Ni chaniateir sgïo ar y dŵr heb arsyllwr annibynnol. Ni chaniateir tynnu neu lusgo tegau gwynt oddi fewn i unrhyw harbwr, parth gwahardd cychod neu o fewn 100m o'r draethlin. Bydd lleiafrif o ddau unigolyn ar fwrdd unrhyw lestr fydd yn tynnu neu lusgo bob amser.
10. Caiff manylion unrhyw lestr n sy'n arddangos trwyddedau ffug eu cyfeirio at yr Heddlu.



Math o lestr i'w gofrestru: Bad Dwr Personol (Sgi Jet)  Cwch Pwer

A ydych yn gwsmer: Newydd  Presennol  Rhif Cyfredol y Llestr: \_\_\_\_\_

A yw'r rhif cyfredol dal ar y Llestr? Yndi  Nacydi , Rheswm \_\_\_\_\_

### MANYLION Y PERCHENNOG (llythrennau bras os gwelwch yn dda)

Enw cyntaf: \_\_\_\_\_ Cyfenw: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_ Côd Post: \_\_\_\_\_

Rhif Ffôn: \_\_\_\_\_ Rhif Ffôn Symudol: \_\_\_\_\_

E-bost: \_\_\_\_\_

### MANYLION Y LLESTR COFRESTREDIG

Math o lestr: \_\_\_\_\_ Enw'r Llestr: \_\_\_\_\_

Prif liw: \_\_\_\_\_ Enw'r traeth/ harbwr a ddefnyddir amlaf: \_\_\_\_\_

### GOFYNION

Rwyf yn cytuno i gydymffurfio â'r rheoliadau sydd wedi eu gosod gan Gyngor Gwynedd ac yn cadarnhau fod y llestr wedi ei yswirio hyd at £3 miliwn trydydd parti.

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

#### NODYN:-

- Plis wnewch y siec, ceisiadau drwy'r post, yn daladwy i **CYNGOR GWYNEDD** a'i anfon ynghyd a'r ffurflen gyflawn i sylw:- **UNED MORWROL, CYNGOR GWYNEDD, FFORDD Y COB, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 5AA**. Ni dderbynnir ceisiadau mewn person yma, ond gellir cofrestru mewn unrhyw swyddfa Harbwr neu yn ystod tymor yr haf ar y brif draethau.
- **Nodwch gall y cais gymryd hyd at 14 diwrnod i'w brosesu.**
- **PEIDIWCH** â thynnu'r rhifau cofrestru oddi wrth y cwch. Darperir rhifau ail-ddilysu, a bydd angen eu lleoli yn y man priodol ar y rhif cofrestru parhaol mwy.
- Caiff manylion unrhyw berson sy'n cael ei ddal gyda trwyddedau ffug eu gyrru at yr Heddlu.

### AT DDEFNYDD SWYDDFA YN UNIG

Math: Cofrestru yn unig  Lansio blynyddol  PW  PC

Rhif parhaol y llestr: \_\_\_\_\_ Rhif cofrestru / lansio: \_\_\_\_\_ Rhif derbynneb: \_\_\_\_\_

Cyfanswm: £ \_\_\_\_\_  Arian  Siec Manylion pellach: \_\_\_\_\_

Dyrodwyd gan: \_\_\_\_\_ Dyrodwyd yn: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

(Printio enw)

### Deddf Diogelu Data

Cyngor Gwynedd yw'r rheolwr data at ddibenion y Ddeddf. Defnyddir y wybodaeth ar y ffurflen hon at ddibenion data harbwr. Gellir ei datgelu i adrannau eraill o'r Cyngor ac asiantaethau perthnasol eraill yn unol â chofrestrriad y Cyngor dan y Ddeddf.

